YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1893. [RHIF 61

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

GAIR AT Y DARLLENYDD.

WRTH gychwyn ar waith blwyddyn arall, credwn mai ein dyledswydd yw cydnabod yn ddiolchgar yr help a'r caredigrwydd ydym wedi brofi er pan ydym wedi ymgymmeryd ag arolygu ein misolyn. Mae y diolchgarwch hwnw yn ddyledus i'n gohebwyr—rhai o honynt wedi aberthu amser mawr, ac wedi cyflwyno eu llafur goreu ar allor eu gwasanaethgarwch i ni; ac er y gallwn ddweyd am ereill o honynt, ein bod ambell waith wedi gorfod derbyn y dymuniad am y weithred, etto, diolchwn iddynt am y dymuniad, gan hyderu yr esgora ar help gwerthfawr yn y dyfodol agos. Diolchwn hefyd i'n derbynwyr, ac yn arbenig i'n dosparthwyr ydynt yn hunanymwadol yn gwneyd gwasanaeth i ni nad oes neb yn fwy argyhoeddedig o'i werth nâ'n hunain, a gwasanaeth sydd yn costio iddynt hwy, fel yr ofnwn, lawer o drafferth afreidiol. Nid oes neb, ychwaith, yn fwy ymwybodol nâ ni o ddiffygion ein misolyn bychan. Mae hyny yn cyfodi, i fesur mawr, am nad ydym mewn ffordd i roddi rhagor nâ diolch i'n gohebwyr am eu gwaith. Ond credwn, serch hyny, ei fod, er ei holl wendidau, yn llanw bwlch a fuasai heb ei lanw oni b'ai YR YMOFYNYDD; ac mae ambell nodyn a dderbyniwn oddiwrth ein cyfeillion mewn conglau nad oes ganddynt ddim oddigerth ein cyhoeddiad i'w cyssylltu â'u brodyr yn y ffydd Undodaidd, ac i w cadw yn effro i helyntion yr enwad, yn ein calonogi ac yn ein hannog i wneyd ein goreu i wneyd YR YMOFYNYDD yn fwy dyddorol o hyd. Dyna ein hymgais, ddarllenydd anwyl, ac ni roddai dim fwy o hyfrydwch i ni nâ chael cydweithrediad llawen ein cyfeillion —yn weinidogion ac yn lleygwyr—i godi safon ein cylchgrawn, a'i wneyd yn fwy teilwng o honom, fel Undodiaid. Credwn ein bod ar y llwybr i gael y dymuniad hwn wedi ei sylweddoli, oblegyd mae yr aw-

grymiadau a daflwyd allan gan ein gohebydd, R. Johnson, yn y rhifyn diweddaf, wedi derbyn cefnogaeth ein gweinidogion, y rhai ydynt i gyd, gydag eithriad o un neu ddau, nad ydynt etto wedi ateb, yn barod iawn i ymgymmeryd â'r gorchwyl a osodwyd iddynt. Os yw y gyntaf o'r erthyglau a ymddengys yn y rhifyn hwn, gan Mr. Jones, Aberdar, yn ddangoseg o'r erthyglau a ysgrifenir yn ystod y flwyddyn hon, mae yn ddiamheu genym y ca ein darllenwyr ymborth blasus. Ar bwys yr ymdrech adnewyddol hon ar ran ein gohebwyr, a ydyw yn ormod i ni ofyn am ragor o ymdrech ar du ein derbynwyr i ledaenu cylchrediad ein misolyn? Carwn wasgu hyn at ystyriaeth ein heglwysi, a gofyn am eu help i gael gafael yn yr Undodiaid sydd yn wasgaredig ar hyd ac ar led y wlad. Crefwn am eich cydweithrediad, ac eiddunwn i chwi i gyd "Flwyddyn Newydd Dda."

Y Golygydd.

Y BYWYD PERFFAITH.

I. Yr Egwyddor Grefyddol mewn Dyn.*

Credai Dr. Channing yn Ardderchogrwydd ac Urddas y Natur Ddynol. Yn ei olwg ef nid oedd yr un teitl yn uwch na Dyn. Credai fod y gorchymyn i garu Duw, â'r holl galon, a'r holl enaid, a'r holl feddwl, a'r holl nerth mewn perffaith gydgordiad a holl natur dyn. Mae dyn wedi ei greu gan Dduw ac i Dduw; ei holl serchiadau, teimladau, cyneddfau, galluoedd, maent wedi eu bwriadu i'w cyfeirio at Dduw. Dyben ei fodolaeth yw cymdeithas a Duw. Ni ofynai Duw i ni gyflwyno ein holl fodolaeth iddo ei Hun, oddieithr ei fod wedi ein donio â galluoedd addas i hyny. Mae elfenau crefydd, yr had, yn ein natur; ac y mae dadblygiad crefydd wedi ei adael i'n gofal ni.

1. Yr Egwyddor yn ein Natur, o'r hon y mae crefydd yn tarddu, yw y dymuniad i gynnal ac i gadw i fyny ein perthynas a'r Perffaith; neu yn ngeiriau Paul i gadw mewn cymmod a Duw; neu yn iaith gwyddor ddiweddar, ceisio ymgyfaddasiad at ein Hamgylchynedd (adjustment to Environment). Ffaith hynod bwysig yn ein hanes yw ein bod, fod dyn, yn mhob man, yn mhob oes, hinsawdd, a gwlad, o bob llwyth, iaith a chenedl, wedi teimlo rhyw duedd ynddo at Rywbeth uwch nag efe ei hun; rhyw ddyhead am gymmundeb a'r Dwyfol. Ni fyn yr yspryd dynol gael ei gyfyngu i'w derfynau ei hun; myn godi uwchlaw ei hun a dwyn ei dynged i gymdeithas a'r Goruchaf.

Ardderchog hwnt i ddychymyg yw yr egwyddor grefyddol; yn eu hamlygiadau anaddfed yr ydym yn canfod blagur y galluoedd ysprydol

---

* Darllener a chymharer y "Perfect Life" yn Ngweithiau Dr. W. E. Channing.

ydynt gyda chynydd yr hiliogaeth, wedi sicrhau i ddyn yr amgyffrediad o'r Daioni Dwyfol. Gwelir yr egwyddor yn nghreadigaethau athrylith, yn ffurfiau y prydferthwch arddunol y mae barddoniaeth a chelfyddyd wedi rhoddi anfarwoldeb iddynt; yn yr edmygedd a ddangoswn tuag at fawredd deall a gwroldeb rhinwedd; yn y llawenydd a deimlwn wrth ddylyn hanes dynion ydynt wedi rhagori ar eu cydfforddolion mewn ymdrech a hunan-ymwadiad. Y dymuniad am ragoriaeth nad yw byth yn cael ei gyrhaedd, y dyhead ar ol y cynddrych (Ideal) a osodir allan yn y gair PERFFEITHRWYDD, dyna egwyddor elfenol a chynyrchiol (? seminal) crefydd. A dyma wreiddyn holl gynydd yr hiliogaeth. Trwyddo y daw y meddwl dynol i gyfatebiaeth a'r Goruchaf; a chan ei fod yn ei sylwedd yn anniwall, mae yn cyfranogi o anfeidroldeb, ac nis medr un ond yr Anfeidrol ei hun gyflenwi ei ddiffyg.

Cawn yma help i farnu yn nghylch Gwirionedd a Phurdeb unrhyw ffurf o grefydd; a cheir pob crefydd yn wir yn ol graddau yr eglurdeb gyda'r hwn y mae yn gallu gosod allan Berffeithrwydd Duw. Mae purdeb unrhyw system i'w fesur wrth yr amgyffrediad a rydd am Dduw. A yw yn derchafu ein meddyliau at y Perffaith? A yw yn ein codi uwch law ein natur ein hun? A yw yn ein dwyn i gymdeithas a dealldwriaeth ardderchog a gogoneddus? A yw yn eangu ein meddyliau gydag amgyffredion parchus a charedig am Awdwr bodolaeth? Nid oes i Grefydd un rhagoriaeth ond a fyddo yn ein dyrchafu i gymmundeb a Natur uwch a sancteiddiach na'r eiddom ein hunain. I'r graddau, gan hyny, y byddo crefydd yn bwrw cysgod dros ogoniant Duw, neu yn tynu yn ol oddiwrth garueiddwch ac ardderchogrwydd ei garacter, y mae'n amddifad o urddas, ac yn tueddu i ddarostwng y meddwl.

Mae pob system o angenrheidrwydd yn ddiffygiol. Cyfranogant oll o natur gyfyngedig y meddwl dynol. Rhaid i'r grefydd buraf y dichon dyn ei dychymygu syrthio yn fyr o ogoniant ei gwrthddrych. Mae ein hamgyffredion goreu, yn ddiamheu, yn gymmysg a chyfeiliornad. Soniwn am wir, etto nis gwelwn ef ond mewn rhan; ac mewn crefydd nid yw ein dynesiad yn berffaith. Gwelwn Dduw yn nrych ein meddyliau; ond ar lawer ystyr cawn y gweledyddion yn bwl ac yn dywyll; gwelwn Ef yn ei waith, ond o'r gwaith ni ddaw i'n golwg ond cyfran fechan. Trwy ei yspryd Fe lefara wrthym yn yr ysgrythyr ac yn y galon; llefara wrthym trwy iaith ddynol, ac ymgyfaddasa ar gyfer ein cyneddfau gweinion, fel y gallwn gael trem ar ei berffeithrwydd. Dynesu wnawn ac yn raddol at Dduw; ac yn mhob cyfeiriad ni wnawn ond dynesu, ni ddeuwn wyneb yn wyneb.

II. Dywedwn etto mae crefydd yn naturiol i ddyn, ac yn amcan mawr ei fywyd. I ddangos hyn trown at y Natur Ddynol. Mae holl alluoedd a chynneddfau dyn yn dwyn tystiolaeth i'r cyfeiriad hwn, ac yn profi eu hunain yn gynnifer o elfenau crefydd.

1. Sylwer ar y *Rheswm*, yr elfen ddwyfol oddifewn. Beth ydyw egwyddorion neu feddylddrychau cyntefig, dyfnaf, egluraf Rheswm? Y cyfryw ydynt a arweiniant at Dduw. Olreiniad cyntaf Rheswm

yw yr un yn nghylch achosion. Tra etto'n blant yr ydym yn tori ein teganau er cael allan ddirgelwch eu gweithrediad. Ni foddlonwn i edrych ar y peth sydd, ond mynwn chwilio i'w darddiad. Megys wrth reddf gofynwn yn nghylch trefn y bydysawd, ac ni orphwyswn nes dyfod at y Cyn-achos.

Mynwn hefyd gael golwg eang a chyssylltiedig ar bethau. Ni foddlonwn eu cymmeryd ar wahan. Cymharwn hwy, ceisiwn y tebyg a'r annhebyg ynddynt, olreiniwn eu perthynasau a'u haddasrwydd y naill i'r llall. A mawr fydd ein llawenydd pan gawn allan y Ddeddf sydd yn sicrhau ufudd-dod pob peth ac yn rhwymo pob peth yn nghyd. Felly y dysgwn fod yr haul a'r ddaear a'r ser yn ffurfio un cyfanwaith mawr cyssylltiedig ac yn rhoddi ufudd-dod i'r un ddeddf a elwir sugndyniad. Fel hyn y deuwn i weled cyssylltiad a chydgordiad a awgrymant Unoliaeth yn amrywiaeth diderfyn y bydysawd, ac i deimlo yr hyn a feddylir wrth un Achos, un Duw. Mae unoliaeth natur yn awgrymu ac yn profi unoliaeth meddwl, amcan, a gallu deallol; ac yn cyhoeddi Un achos Hollalluog i'r oll.

2. Cawn yn y *Gydwybod* dueddiad arall at grefydd. Dyma yr hyn a elwir weithiau yn llais Duw yn enaid dyn. Ymddengys fel yn annybynol ar y dyn, yn farnwr ac yn frawdle ar ei holl waith Gall fod dadl yn nghylch tarddiad a hanes cydwybod, ond nid oes dau feddwl i fod yn nghylch ei phresenoldeb a'i gallu. Nid yr un yw ei swydd ag eiddo rheswm. Nid swydd Cydwybod yw penderfynu yr hyn sydd iawn, swydd rheswm yw hyny; ond pan ganfyddaf yr iawn, geilw Cydwybod arnaf i'w gyflawni. Nid gwaith Cydwybod yw tynu casgliadau y rheswm; unig waith Cydwybod yw cadarnhau gyda'i holl ddylanwad a'i nerth yr hyn y mae rheswm wedi ei gyhoeddi yn iawn. Mae Cydwybod yn ffyddlon (loyal) i ddyledswydd fel dyledswydd ac yn dyst parhaus yn enaid dyn, o du uniondeb a chyfiawnder. Mae cydwybod, wedi ei goleuo gan reswm, yn wastad yn ein hannog i *wneyd daioni* i'n cyd ddynion yn hytrach nä'u gwneyd yn ddedwydd. Gall eu daioni a'u dedwyddwch weithiau fod mewn cyfeiriadau gwahanol. Mae Cydwybod yn cario awdurdod sydd yn dwyn braw yn fynych i'r galon. Llefara fel pe byddai Duw yn llefaru. Pan fyddo yn cymmeradwyo neu yn cyhuddo, ni theimlwn fel pe byddem ein hunan yn farnwr, ond yn fwy tebyg fel pe byddem o flaen barnwr a brawdle arall. Teimlwn yn mhresenoldeb Cyfaill anfeidrol rhinwedd, ac ymgrymwn ger ei fron gyda pharch.

3. A dyna'r *Serchiadau*, mor eglur y dysgant fod dyn wedi ei ffurfio ar gyfer crefydd. Beth ydyw y serch cyntaf a deimlir yn y galon? Cariad, y teimlad o garedigrwydd rhieni. A pha beth yw crefydd, ond y cariad mabaidd yn ymgodi at y Tad Nefol? Dyna hefyd y teimlad o *Barch*, parch at yr hyn sydd dda. Nid oes neb, dybiwn, nad yw yn cael ei lanw ag edmygedd a chymmeradwyaeth yn mhresennoldeb y Cariad a abertha ei hun er mwyn lles a dyogelwch arall. Wrth gwrs, nid cariad yw pob peth a elwir yn gariad. Mae y reddf anifeilaidd yn burion ac yn naturiol yn ei lle; ond y mae'r cariad a feddyliwn yn anfeidrol uwch. Mae y teimlad o *gariad* sydd yn arwain

i hunan-ymwadiad a'r teimlad o *barch* sydd yn arwain i edmygedd yn gymhellion parhaus yn nghyfeiriad y Dwyfol. A dyna'r cyfeiriad at y *tlws* yn berthynas agos. Oni welwn, oni theimlwn, swynion y tlysni sydd yn wasgaredig dros fryn a dol, dros fynydd ac afon, dros allt a rhos, ac oni arweinia hyn ni i ystyriaeth o'r Prydferthwch a'r Tlysni dysgleiriach nag eiddo natur? I'r hwn sy'n meddu'r llygad i weled a'r galon i deimlo tlysni natur, fe lefara am Bresennoldeb uwch a sanct-eiddiach.

Felly y gwelwn fod ein serchiadau yn ein parotoi i deimlo y Daioni Anfeidrol; ac fel y mae y rhai hyn yn annherfynol yn eu cylch, hawliant wrthddrych annherfynol. Nis boddlonir hwy gan y gradd o gariad a deall a gallu a geir mewn dynoliaeth. Cynhyrfant y dychymyg i geisio am ragoriaeth uwch a chyfoethocach ac eangach. Ymhyfrydant yn yr anfeidrol, ac nid ymfoddlonant nes cael gorphwysfa yn y Bod Anfeidrol, sydd yn gyfuniad o bob daioni.

4. Mae yn nyfnderoedd yr enaid ddau gymhelliad neillduol addas i arwain dyn at Dduw, sef (1) yr *awydd anniwall* a gawn yn mhob dyn am *Ddedwyddwch*, awydd nad oes gan y presenol gyda'i holl ardderchogrwydd ddigon i'w foddio, awydd nas gall y bydysawd a'i holl ogoniant byth ei foddloni; awydd sydd yn myned yn fwy angerddol yn nghanol dyoddefiadau a siomedigaethau bywyd; ac yn myned yn ddyfnach, yn eangach ac yn burach dan brofiadau uwchaf llawenydd. (2) Y llall yw yr awydd am *Berffeithrwydd*, am ryddhad oddiwrth bob drwg, am gynydd parhaus, yr awydd i sylweddoli mewn caracter y cynddrych dysglaer hwnw sydd yn amgyffrediad eneidiau ardderchocaf y ddaear. Nid oes daioni ar y ddaear a ddichon gyflenwi eu gofynion, ac annifeiriol yw yr eneidiau blinion ydynt wedi eu harwain ganddynt hyd at y Presenoldeb Dwyfol.

5. Y reddf grefyddol yw sail ac achos pob crefydd. Heb gynneddf foesol nis gallai fod arnom un ddyledswydd tuag at ddyn, ac heb gynneddf grefyddol ni fyddai arnom un tuag at Dduw. Mae deddf, dyledswydd a thynged dyn fel eiddo pob creadur arall, wedi eu hysgrifenu yn ei natur gan law yr Hollalluog. Megys na all dyn byddar o'i enedigaeth wybod dim am ddeddfau swn, nac un dall o'i enedigaeth wybod dim am liwiau, felly yn gyffelyb ni allai fod genym un syniad na theimlad am Dduw a dyledswydd oddieithr fod genym y gynneddf briodol at hyny. Mae hono genym. (1) Fel y dywedwyd o'r blaen mae yn *gyffredinol*, mae gan bawb. Myn rhai fod eithriadau; os oes, nid ydynt ond yn profi y rheol. Ond mae'r eithriadau yn amheus. (2) Mae'r elfen yma hefyd yn *anninystriol*. Er pob ymdrech i'w diwreiddio, mae yn ymwthio i'r ffrynt trwy'r cwbl. I'r ufudd mae yn fendith, ac i'r anufudd megys haiarn poeth yn trywanu hyd at fer yr asgwrn. (3) Hi ydyw y ddyfnaf a'r gryfaf o'r holl gynneddfau. Ni ddybyna ar ddim allanol. O ddyfnderoedd natur dyn y cyfyd ei addoliad, ei weddi, a'i emyn o fawl. Dengys hanes ini y fath faes eang lenwir gan grefydd. Hi ydyw mam athroniaeth a'r celfyddydau, ac y mae wedi llywyddu y penaf o ryfeloedd. Deil yr holl genedloedd heddyw â'i llaw anweledig; yn ffrwyno eu nwydau, yn deffroi eu rhinwedd, yn gwneuthur yn

ddysglaer eu gobeithion gan belydrau ffydd, yn ymdywallt drwy len dywyll angenrheidrwydd. Rhoddodd i ddeddfwneuthurwyr yr hen fyd eu gallu, i Mohamed ei ymerodraeth, i'r Croesgadau eu bodolaeth. Mae wedi peri i ddynion adael cymdeithas siriol eu cyd-ddynion fel y gallent ymgyflwyno i Dduw a theimlo ysprydoliaeth llawen ei bresenoldeb Ef! wedi rhoddi nerth iddynt weithio a goddef! wedi esmwythau eu tristwch, ac wedi anadlu heddwch a gobaith pan oeddynt ar fin trengu yn yr angeu. Yn mha le ond yn Nuw y caiff Wrthddrych teilwng o'i chyflawnder gorlifol o barch a serch a dyhead a gobaith?

III. Gochelwn wneuthur cam â'r egwyddor hon trwy ei hesgeuluso. Bydded yn brif ymdrech genym i roddi bywyd a nerth iddi. Dyma faes o weithgarwch ini. Peidiwn gwasgaru ein galluoedd yn ormodol, ac felly amddifadu ein hunain o briodol amcan ein bodolaeth. Maes ein gwaith yw'r byd oddi fewn, maes anfeidrol mwy ei werth na'r un oddi allan. Mae gosod Duw ar orsedd ein bodolaeth mewnol yn anfesurol ardderchocach amcan na phe bai genym lywodraeth teyrnasoedd. Mae yn ngallu dyn i gyfuno a chyfeirio elfenau ysprydol ei fodolaeth, i ryddhau'r deall oddiwrth ragfarn, a'i agor fel y delo'r Gwirionedd i fewn; i ryddhau'r galon oddiwrth hunangarwch, a'i dwyn i gymundeb trwy gariad hunanymwadol.

Wrth gwrs, ni olygir gwneuthur hyny heb help. Nis gallwn ddysgu na chelf na gwyddor nac iaith heb help. Trwy help meddyliau ereill y gwellhawn ein meddyliau ein hunain. Heb help parhaus y Goruchaf, nis gallem wybod dim, nis gallem fyw. Mae nerth penaf dyn yn gynwysedig yn ei fod yn ceisio ac yn defnyddio pob help oddi wrth natur ac oddi wrth ei gydgreaduriaid; ac yn neillduol yn ceisio yr help ysprydol oddiwrth Dduw. Gosodir cynnorthwyon dirif o fewn ein gafael gan Dduw.

Mae genym ffydd yn Nuw, a theimlwn weithiau ein perthynas ag ef. Ceisiwn ei wneyd yn fwy na chrediniaeth oer, yn fwy nag addoliad ffurfiol neu deimlad anarosol o ddiolch. Ceisiwn wneyd yr Egwyddor Grefyddol yn wir fywyd ein heneidiau, yn nerth sefydlog i'n moesoldeb, yn heddwch hwnt i wybodaeth; yn ffynon o ffresni parhaus yn y fynwes. Tosturiwn wrth gysgadrwydd deall a dideimladrwydd meddwl y barbariaid; ond edrychwn na fyddom ni gyda'n cynneddfau dysgleiriach a'n gallu mwy i anrhydeddu Duw ac i fyw mewn cymmundeb hapus ag Ef, yn cefnu arno, ac yn claddu ein heneidiau mewn gofalon a phleserau diflanol. Y mae hunanladdiad mewnol sydd yn fwy ofnadwy na'r dinystr o'r bywyd anifeilaidd. Golygfa dristaf bodolaeth yw fod bod rhesymol a moesol wedi ei daro â marwolaeth ysprydol, yn fyw yn unig i'r hyn sydd ddaearol, yn byw heb Dduw ac heb obaith. Gochelwn farwolaeth yr enaid—y dideimladrwydd i Bresenoldeb, Awdurdod, a Daioni ein Tad Nefol.

Os gofynir *sut* y deuwn i gymmundeb byw a'r Tad Goreu, atebwn (1) Trwy ymdrech, trwy wneuthur ein goreu, i ddefnyddio pob moddion y dichon Rheswm a Deall awgrymu i gael amgyffredion clirach a dysgleiriach am Dduw; trwy gyssegru ein meddyliau i'r sylwedd Gor-

uchaf hwn. Peidiwn gadael i ereill y ddyledswydd o feddwl drosom. Defnyddiwn ein meddyliau ein hunain. Rhoddwn sylw manwl i grefydd yr Iesu, ac wrth wneyd hyny (2) daliwn ar yr hyn sydd yn eglur, ac nid yn aneglur. Ceisiwn yn benaf eiriau syml yr Iesu ei hunan, yn hytrach nag ymadroddion tywyll rhai o'r epistolau. Sylwn ar y caracter Dwyfol mewn Cristionogaeth nid yn gymmaint trwy'r geiriau a'i desgrifiant; ond yn fwy trwy garacter yr Iesu. Gyda'r Iesu dysgwn weled Duw yn mhob man, yn Natur, mewn Rhaglunaeth, ac yn yr Enaid Dynol.

Nid yw defnyddio'r Deall yn ffyddlon ac yn annybynol yn yr ymgais am syniadau cywir am Dduw ddim yn ddigon; rhaid ychwanegu at hyny *Ufudd-dod* i Ewyllys Duw, mor bell ag y deallwn, neu ni fydd yr ymdrech deallol yn tycio fawr. Gallwn trwy fyfyrdod, a thrwy fyw yn mhlith pobl oleuedig gael gafael mewn damcaniaeth (neu *theory*) iawn. Gwybodaeth o eiriau yn unig fydd hyny, ac nid gwybodaeth o sylweddion, oni fydd genym feddwl parod, trwy ufudd-dod purhaol i dderbyn gwybodaeth fwy gynefin ac agosach am Dduw. Rhaid wrth ddysgyblaeth Foesol er cael syniad cyfiawn. Er adnabod Duw rhaid fod ynom rywbeth mewn cydgordiad a chydymdeimlad ag Ef. Ni ddichon addysgiadau llu o angylion roddi i ddyn drwg amgyffredion dysglaer am Dduw. Mae'r hwn a serio ei gydwybod ac a galedo ei galon mor effeithiol yn cau Duw allan, ag y mae'r dyn a dyno ei lygad allan yn amddifadu ei hun o oleuni'r haul. Ni wna dysg y deall yn unig helpu nemawr at Dduw, heb ddysgyblaeth fewnol, heb lywodraeth ar y nwydau, heb barch i gydwybod, heb ddadblygiad o egwyddorion da a serchiadau pur oddifewn. Ni fydd genym ond gwybodaeth arwynebol yn unig o Dduw, ni fydd genym wybodaeth sylweddol, nes bydd Yspryd Cariad, yr hwn sydd yn dwyn tebygrwydd i'w yspryd ei hun, yn tarddu oddifewn. Dyma'r hyn a'n helpia i amgyffred y Tad, i adwaen y Cariad sydd yn llewyrchu i bob parth o'r greadigaeth. Nis dichon dim allanol draethu ini'r fath allu gogoneddus yw'r Meddwl. Bydd gwaith arderchocaf y Meddwl crëedigol yn guddiedig oddiwrthym. Ni ddwg un addysg allanol ini weledigaeth o'r Bod Dwyfol. Gyda'r ymdrech deallol rhaid i'r enaid uno gweithrediad moesol arno ei hun.

A fynwn gan hyny gyrhaedd at y Cariad Dwyfol a'r holl galon a'r holl enaid, &c., dechreuwn trwy ymburo oddiwrth bob pechod. Aed gwresog weddi'r galon ato Ef i'n cynnorthwyo yn ein hymdrech yn erbyn nwydau ac arferion drwg ac i ddwyn ufudd-dod trylwyr i'r Ewyllys Ddwyfol. Yn yr yspryd hwn myfyriwn ar garacter yr Iesu; ac ynddo gwelwn ddelw y Tad. Mewn yspryd ufudd-dod, edrychwn ar natur, ar weithiau y Crewr, eu tlysni a'u cydgordiad, nes yn raddol y daw nefoedd a daear i hyawdl lefaru wrthym fawl eu Hawdwr. Ac yn yr yspryd hwn edrychwn i fewn i'n meddyliau ein hunain a sylwn ar yr hyn sydd fawr a da yn meddyliau ereill; ac ymddengys y Meddwl Anfeidrol yn fwy-fwy ini yn ngwaith penaf ei greadigaeth, yr enaid dynol. Ac yn mhellach, gyda'r amcan purhaol hwn, aed ein gweddi am yr Yspryd dwyfol ac ni a'i cawn. Daw'r Dylanwad cyfriniol i gynnorthwyo ein hymgais am undeb a'r Sanctaidd; daw Tangnefedd, dystaw megys

gwlith, i orphwys ar ein heneidiau. Felly y deuwn yn raddol i gymundeb byw a'n Crewr.

Wrth derfynu, dywedwn etto, nad yw crefydd yn rhywbeth annaturiol, rhywbeth nas gallwn ei gyrhaedd. Mae ei hadau ynom oll. Mae genym oll y llygad ysprydol i weled, y meddwl i wybod, y galon i garu, a'r ewyllys i ufuddhau i Dduw. Mae genym natur ysprydol a ddichon ddwyn delw y Perffeithrwydd Dwyfol. Peidiwn ei wrthod. Peidiwn colli ein heneidiau ar wrthddrychau diflanol a darfodedig. Gwnawn yr eneidiau hyn yn demlau i'r Duw byw drigo ynddynt. Boed i ni oll trwy iawn arfer o'r deall, trwy ufudd-dod pur a chywir, gael mwynhau y dysgleirdeb a'r sancteiddiad graddol hyny ydynt yn flaenbrawf o'r Nefoedd.

Rhagfyr 19, 1892. R. J. J.

BWRLYMAU *(BUBBLES).*

Ha! gwel yn esgyn draw fwrlymau purlan,
A'u cyrchiad tua'r nef fel crwn blanedau;
Y bwrlwm dyr—dianga'r anadl allan
A roddes iddo fod—Hyn, hyn yw Angau!

Bwrlymau ydyw dynion—bwrlymau'r Duwdod,
A chwythwyd ganddo i ffurfafen Amser;
Y bwrlwm dyr—eheda'r yspryd uchod,
Disgyna'r pridd—ond ha, daw dydd i'w adfer.

Fe adfer Duw yr holl fwrlymau etto;
Yn rhif y gwlith esgynant i'r uchelder,
Yn heirdd blanedau i droi'n dragwyddol yno,
O gylch yr haul—eu Iesu—Haul Cyfiawnder!

"A'r doethion a ddisgleiriant fel disgleirdeb y ffurfafen; a'r rhai a droant lawer i gyfiawnder, a fyddant fel y ser, byth yn dragywydd."

Chili. Avonian.

Merch y Meddwyn a ddaeth adref un noson yn llefain yn druenus, a gofynodd ei thad iddi beth oedd y mater. Atebodd hithau nad oedd yn leicio dweyd wrtho. "Oh, de'wch, dywedwch wrthyf. A ydych yn dost?' "*Nac wyf, nhad, ond mae'r plant yn galw merch y meddwyn arnaf, ac yn chwerthin, ac nid alla' i ddim peidio llefain.*" Yr oedd hyn yn ormod i'r tad: aeth dranoeth i ymrwymo'n ddirwestwr, ac ni eddwodd byth mwy.

NADOLIG.

"Yr hwn hefyd a'n gwnaeth ni yn weinidogion cymhwys y testament newydd; nid i'r llythyren, ond i'r yspryd, canys y mae'r llythyren yn lladd, ond yr yspryd sydd yn bywhau."—PAUL.

CADWN ni ddydd Nadolig fel dydd genedigaeth Crist. Rhydd yr Efengylau wybodaeth am ystori ei enedigaeth; ond ar gyfrif rhai ystyriaethau, nid yw yr ystori yn un hawdd ei deall. Mae un peth, fodd bynag, yn eglur—ei fod ef, sef yr Iesu, yn un addfwyn o'r dechreu, etto yn benderfynol a diofn, yn ffyddlon a dewr, yn ceisio Duw, ac am wybodaeth eglur, amlwg, a boddhaol am dano. Nid oedd un wybodaeth arall yn ei olwg ef ond cymharol ddibwys wrth ei chymharu â'r wybodaeth hon; ac o ganlyniad, dywed efe am dani, er dangos ei huchafiaeth a'i gwerth annghymharol fawr, fel hyn:—"A hyn yw'r bywyd tragwyddol, iddynt dy adnabod di, yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist." Hyd y nod yn ei fabandod, ceisiai gwmniaeth dynion profedig a dysgedig yn y Deml, ac yr oedd yn awyddus, yn ol ei dystiolaeth ef ei hunan, i fod gyda gwaith ei Dad nefol.

Mab oedd i Joseph y saer a Mair, "Ac efe a aeth i waered gyda hwynt, ac a ddaeth i Nazareth, ac a fu ostyngedig iddynt. A'i fam ef a gadwodd yr holl eiriau hyn yn ei chalon. A'r Iesu a gynnyddodd mewn doethineb ac oedran, a ffafr gyda Duw a dynion," Luc ii. 51—2. Amlwg yw ei fod yn blentyn ufudd a chariadlawn, ac yn parotoi ei hunan i'r ufudd-dod goruchel a'r cariad perffaith hwnw a'i harweiniodd ef wedi hyny i ddywedyd, "mai ei fwyd a'i ddiod oedd gwneyd ewyllys yr hwn a'i danfonodd," a chwblhau y gwaith oedd wedi cael ei roddi iddo gan ei Dad a'i Dduw.

Yma y cawn esponiad ar lawer o anhawsderau mewn perthynas i'r Iesu—anhawsderau na fuasent wedi bodoli erioed o gwbl pe buasai dynion yn ofalus i gofio yr hyn ddywedai efe ei hunan bob amser, mai Duw oedd ei Dad nefol, yr Hwn a'i danfonasai i'r byd, ac a oedd gydag ef bob amser, ac mai Duw ein Tad nefol ninau hefyd, yr Hwn sydd yn danfon pob dyn sydd yn awyddus i'w wasanaethu Ef, ac a fydd yn wastad gyda ni.

Gwirionedd cariadlawn a bendigedig yw fod "goleuni gwybodaeth gogoniant Duw yn llewyrchu yn ngwyneb Iesu Grist," ac fod y goleuni dysglaer hwn yn ein calonau, yn ein galluogi ni i'w weled. Ond y mae pob peth yn llewyrchu gyda gogoniant Duw, ac y mae gan bob peth wyneb all ddweyd wrthym rywbeth am y Tad.

Nid yn unig ar amser Nadolig y mae'r Iesu yn siarad â ni am Dduw; ond y mae y sêr dysglaer, a'r eira claer, a chrawel pelydrog y gelynen, a llygaid tanbaid y baban, a gwalit arianog yr hynafgwr, a gwynebpryd siriol y fam dyner ei chalon, yn gwneyd yr un peth. Mae gogoniant nefol i'w weled bob amser yma, a gall goleuni yn y galon fod yno bob amser hefyd i'n galluogi i'w weled.

Yn wir, yn wir, yr oedd Paul yn iawn. Rhaid yw i'r goleuni fod o'n mewn ni cyn y gallwn ei weled o'n hamgylch. Rhaid i Dduw lewyrchu yn ein calonau ni cyn y gallwn ni gael gwybodaeth o'i ddysgleirdeb ar ein gwynebau. Felly y mae bob amser. Ni allem ni ddim hyd y nod ymfalchïo ac ymloni yn lliwiau y dail a'r blodau amryliw, yn ngwychder a dirgelwch y cymmylau, ac yn nghaniadau yr adar, ac yn miwsig y lleisiau mwyaf swynol a'r offerynau mwyaf cynghaneddol, pe na fuasai genym ni rywbeth yn ein heneidiau ein hunain yn cydseinio â hwynt.

Felly y mae yn rhaid i ni gael allan y goleuni mewnol hwn a'i fagu a'i feithrin, a gwneyd llawer o hono a meddwl am dano fel angel gwarcheidwadol llaw ddoeth a llygad dysglaer ffydd i'n cynnorthwyo i weled pob peth pur a phrydferth. A'r angel hwn ar amser Nadolig fydd yn ein cynnorthwyo i weled yr Iesu. Ni allai un llyfr wneyd hyny drosom, ac ni allai yr athraw doethaf a fu byw erioed wneyd dim ond yn unig ein cynnorthwyo. Y mae yn rhaid i ni gael y dysgleirdeb nefol ynom ni ein hunain.

Dywed Paul wrthym mai y goleuni yw Duw ei Hunan. Efe sydd yn llewyrchu yn ein calonau i'n galluogi i weled ei ogoniant yn mhob man arall. Efe yw y Tad nefol sydd yn siarad wrth ei blentyn daearol oddiwrth neu drwy bob peth y mae wedi ei wneyd, oblegyd y mae Efe wedi gosod rhywbeth o'i hunan yn mhob peth. Felly hefyd mae ei oleuni, ei allu, a'i gariad, yn llewyrchu allan yn mhob man i bawb ag sydd â llygaid ganddynt i weled. Ond y mae Efe yn neillduol yn y sawl sydd yn meddwl am dano ac yn ei garu. I'r rhai hyn y mae yn rhoddi llygaid doeth deallawl a dymuniadau pur; felly y mae y goleuni yn pelydru allan yn fwyfwy oddiwrthynt hwy i ddangos iddynt yn mhob peth, a pheru iddynt fod yn llawen yn y wybodaeth o bresenoldeb eu Tad, yr un fath ag oedd yr Iesu mewn byd ag oedd iddo ef yn gyflawn o Dduw.

Pan y credwn hyn yn wirioneddol a sylweddol—pan y credwn yn y Tad ac mai ei blant Ef ydym ni, cawn ei weled Ef yn ngwyneb yr Iesu, ac yn mhob gwyneb arall lle y llewyrcha cariad, neu lle y mae tristwch a blinder yn dadleu; ac yna, bydd y goreu o bob dydd Nadolig yn eiddo i ni, sef pan y genir Crist yn ein calonau, ac y dywedwn gydag un a'i hadwaenai yn dda, "Anwylyd, yr awrhon meibion i Dduw ydym."

H.

ESGEULUSO'R CYDGYNNULLIAD.

Mr. Golygydd,—Yr oeddwn wedi bwriadu danfon yr ychydig linellau hyn i'm cyfaill a'm brawd. Dichon y gwna ateb gwell dyben yn Yr Ymofynydd, os gwelwch ryw addasrwydd ynddo, gan y gall ddygwydd myned i law un neu ychwaneg o'r rhai a fyddant yn dyoddef oddiwrth yr un afiechyd.

ANWYL FRAWD YN Y FFYDD,—Yn herwydd eich absenoldeb chwi a'ch teulu lluosog o'r eglwys fechan hono yr ydych chwi a rhan o'ch teulu wedi gweled yn addas i ymaelodi ynddi, yr wyf yn ysgrifenu hyn atoch. Dydd Sul, Rhagfyr 11eg, yn Nghapel Undodaidd R——, yr oedd myfyriwr ieuanc o Goleg Caerfyrddin wedi ymdrechu trafaelu rhyw ugain milldir er mwyn pregethu rhan o eiriau ein Harglwydd yn y modd oedd efe yn gweled fwyaf addas i'w osod allan i'r cyhoedd. Ei destyn oedd, "Gwyliwch a gweddiwch, fel nad eloch i brofedigaeth." Yn herwydd fod ei sylwadau mor dda ac effeithiol i ddylanwadu ar y cyfryw oedd yno, teimlais ofid calon na fuasai llawer yn rhagor yn ei wrandaw, ac yn enwedig na fuasai fy mrawd talentog a'i deulu lluosog yno. Buasai eu presenoldeb yn sicr o fod yn lles ysprydol iddynt hwy, cysur i'w brodyr, a hwylusdod yn ddiamheu i'r pregethwr ieuanc galluog, yn hytrach na'i fod yn pregethu i'r seddau gweigion.

Cof genych, efallai, fy nghyfaill, ddarllen yn YR YMOFYNYDD, er ys ychydig amser yn ol, fod y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, wedi clywed, er ei fawr alar, fod rhyw ddwy neu dair o eglwysi Undodaidd wedi neu ar fin marw. Y pryd hwnw y teimlodd y Parch. E. Ceredig Jones, M A., Bradford, yn ddwys iawn os oedd hyny wedi cymmeryd lle, ac y gosododd allan yn eglur y cynllun sydd gyda'r Undodiaid yno er hwylysu yr eglwysi gweinion; ond pa les fydd un cynllun, os na wna pob Undodwr ei oreu i bresenoli ei hun a'i blant yn y cyfarfodydd? Cyn i'r dyn ieuanc galluog fyned i hanner ei bregeth, penderfynais ddanfon gair at deulu fy nghyfaill, a mynegu y trueni oedd gan amryw weled eich seddau yn weigion pan oedd y fath bregeth yn cael ei thraddodi. Efallai y troseddwn pan yn dweyd eu bod yn wâg bythefnos cyn hyny hefyd. Medd Paul, "Na ddiffoddwch yr yspryd;" a dywed un esponiwr mai absenoli ei hun o Dŷ Dduw yw y modd cyflymaf i ddyn "ddiffodd yr yspryd."

Tybia amryw os bydd ychydig swmbwl yn y cnawd, eu bod yn rhydd o afael sylw Duw, ac o ddymuniad ein Harglwydd i gynnal yn fyw ei eglwys ar y ddaear; neu os bydd ychydig gloffni yn y droed, neu ychydig gur yn y pen, bydd llawer yn barod iawn i gynnyg *apology* am eu habsenoldeb. Nid wyf yn credu y gwna Dduw na'i Anwyl Fab dderbyn hynyna. "Mi a ymdrechais ymdrech deg," medd Paul, er fod swmbwl yn y cnawd. Clywais un rheithior yn pregethu ar yr adnod hon, ac yn dweyd mai *trechu* profedigaeth oedd ystyr y gair ymdrechu, ac nid fel y cymmer y rhan fwyaf ef, sef ymestyn neu geisio gwneyd.

Yr ydych wedi magu teulu lluosog, ac wedi eu hyfforddi mor fanwl a chywir yn eich galwedigaeth, nes eu bod yn troi allan wrth eich bodd, ac y mae rhai o honynt wedi myned allan ar fôr bywyd i hwylio eu llestri yn mlaen. Paham na fuasai yr Undodiaid yn defnyddio eu gallu meddyliol i hyfforddi eu plant mor egniol i gofleidio y ffydd Gristionogol ag y mae eu teidiau wedi ymdrechu a dyoddef cymmaint erddi? Os dywed neb ei fod wedi eu dysgu yn ol yr hyn allasai efe, paham na phrofa hyny? "A man has a mind as well as a body, and this he ought to know, till he knows it, feels it, and duly penetrated

by it; he knows nothing aright." Nid yw yn burion peth i'r Undodiaid—pan fydd eu plant yn mynychu yr eglwysi agosaf atynt—ddweyd y gallant wneyd cymmaint dros Grist yno a phe yn trechu y rhwystr oedd yn ymddangos iddynt fyned i'r capel Undodaidd nesaf atynt. Os felly, yn enw pob rheswm, pa wahaniaeth i ba sect y perthyna un—Pabyddiaeth ai Mahometaniaeth, Methodistiaeth ai Mormoniaeth, &c., &c.? Dywed Paul, "Ceisiwch ragori tuag at adeiladaeth yr Eglwys, &c." Y gofyniad a roddaf yn awr i bob brawd a chwaer Undodaidd yw, Pe buasech (y rhan fwyaf o honoch o'r un teulu) yn trechu rhyw fân rwystrau, a chael clywed pregeth adeiladol i'r meddwl, fel yr un y cyfeiriais ati, neu ryw un o'i bath, a fuasech ddim yn rhoddi llawenydd i'ch cydwrandawyr?—yn rhoddi llawer o hwylusdod i'r pregethwr, a lles i'ch eneidiau, megys pe y clywech Crist yn dweyd, "Da was, da a ffyddlon, dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd."

Rheswm dadleugar rhai Undodiaid yw mai cyfiawnder â'u plant yw eu gadael at eu rhyddid. Paham hyny gyda phethau crefyddol yn fwy na phethau y byd hwn? oddieithr fod eu plant yn dyfod à phrofion o gamgymmeriadau yn syniadau eu rhieni Undodaidd, ac y mae hyn yn debyg o fod yn anmhossibl yn yr oes oleu hon.

"Bydd yn daer mewn amser ac allan o amser; argyhoedda, cerydda, annog gyda phob hir ymaros ac athrawiaeth, canys daw amser pan na ddyoddefant athrawiaeth iachus," &c. Nid oedd Paul yn foddlon ar rywfath o athrawiaeth. Mae hyn yn ddigon eglur fod eisieu i chwi a minau osod ein plant i glywed "athrawiaeth iachus." "Ac oddiwrth y gwirionedd y troant y maith, ac at chwedlau y troant." Chwedlau, onide, yw yr holl bethau y mae Beecher yn son am eu gwrthod, sef "the accumulations of rites and ceremonies, the doctrine of organised churches, ecclesiastical machinery in its various forms." Yn herwydd pethau o'r fath hyn y cwynfanodd y Cardinal Newman, ac y galara llawer Undodwr am gymmeryd at wneyd ymddiheurad, fod *ychydig anhwylder yn y pen neu'r traed, y ffordd yn mhell, a gwlaw yn ymddangos yn agos*, a lluaws o gyffelyb achosion.

Anwyl gyfeillion, os cawn bregethwr talentog, bydded i ni daflu pob rhwystr ymaith, a dweyd—

"Hyd yma'th gariad ges, ac etto caf
I'm arwain dros
Bob craig ac afon, cors a rhos, nes af
Trwy'r dywyll nos;
A chyda'r wawr o fewn y nefol wlad,
Caf weled gwên anwyliaid tŷ fy Nhad."

UN O'R GWRANDAWYR.

CUSANAU.—Nodir wyth math o gusanau yn yr Ysgrythyrau. Cusan cyfarchiad, 1 Sam. xx. 4; cusan ffarwel, Ruth i. 9; cusan cymmod, 2 Sam. xiv. 33; cusan ymostyngiad, Ps. ii. 12; cusan perchenogiad, Diar. xxiv. 26; cusan bradychiad, Mat. xxvi. 49; cusan serch, Gen. xxix. 13; cusan cariad sanctaidd, 1 Thess. v. 26.

AWELON YR HWYRDDYDD.

Awelon yr hwyrddydd, o hyfryd yw'r sain,
Gwir fwyniant sy'n tarddu o gwmni y rhai'n,
Awelon yr hwyrddydd o deuwch yn nes—
Eich anadl falmaidd sy'n lleddfu y tês,
Eich dyddan gyfeillach adlona y fron
Ar gopa y mynydd, ar ysgwydd y don,
Na frysiwch i'ch hymdaith, noswyliwch yn llonydd,
A rhoddwch yn helaeth i ni eich llawenydd.

Awelon yr hwyrddydd! dadlenwch yn glir
Eich dyfyr gyfrinion wrth deithio drwy'n tir;
Mor ddystaw y cerddwch mewn urddas a bri
I sangu y wigfa a'i swyno â'ch si;
Mewn nwyfiant a harddwch y ddeilen fach sydd
Yn plygu yn wylaidd i'ch cyfarch yn rhydd,
Bywiogrwydd deyrnasa yn mron pob aderyn
Tra'n pyncio acenion o frigyn i frigyn.

Awelon yr hwyrddydd, O hidlwch o hyd
Eich cerddi bendithiol i swyno y byd,
A chywrain ogleisiwch y meusydd sydd wyrdd,
Chwareuwch yn serchog a blodion y ffyrdd;
Tra meillion y dyffryn yn dysgwyl y sydd
Eich mwynaidd ymweliad ar derfyn y dydd,
Dan fantell goronog daw adlais o'r dolydd—
Hawddamor i fwynaidd awelon yr hwyrddydd.

Awelon yr hwyrddydd a ddeuant yn gôr,
Fel engyl tangnefedd, cenadon yr Ior,
Mae'r haul, tra yn hwyrol gusanu y bryn,
Fel pe yn eu hebrwng i waelod y glyn;
A thra y dyfera cysuron o'i min,
Mae anian yn ddystaw yn myned i'w hûn,
Y nos sy'n dynesu a'i mantell ysblenydd,
Rhaid canu yn iach i awelon yr hwyrddydd.

Cefn Coed. J. T. Evans.

GWERSI BYWYD PAUL.

Mr. Gol.,—Cynnelir cyfarfod bach adeiladol iawn yn awr bob pythefnos gan yr Annybynwyr ar Donypandy; ac yn wir, mae ei eisieu yma hefyd. Rhoddir testynau i ysgrifenu traethodau arnynt. Yn ddiweddar rhoddwyd Paul yn destyn, ac ysgrifenodd un o ardal Llandysul yr wyf yn meddwl arno. Beth bynag, tybiaf fod gormod o sawyr Undodaidd ar y traethawd i'w farnwr beidio ei gollfarnu i'r eithaf. Mae

yn rhyfedd meddwl fod cymmaint o ragfarn enwadol yn y cwm hwn yn erbyn yr Undodiaid. Ond dyma'r traethawd :—

"Paul.—Testyn ardderchog. Dyn heb ei fath oedd Paul—dyn penderfynol iawn a di-dderbyn-wyneb, a llestr etholedig i Dduw. Yr oedd Duw wedi ei adael yn rhydd yn moreu ei oes, fel gwr yn gollwng yr awenau yn rhydd ar wàr ei farch, hyd nes y daeth yr amser cyfaddas i alw Paul at ei waith. Ond cawn Paul un diwrnod ar ei daith i Damascus, dan feddwl gwneuthur gorchestwaith yno; ond dyma lais yn galw arno, 'Saul, Saul, paham yr wyt ti yn fy erlid I?' A'r atebiad oedd, 'Pwy wyt ti, Arglwydd?' Paham y gofynodd Paul hyn, ni wn, a phaham y defnyddiodd efe enw yr Arglwydd yn ei ofyniad ni wn. Y mae yn eglur nad oedd Paul yn ymwybodol ei fod yn erlid yr Arglwydd. Yn awr, dyma Paul yn cael ei alw at ei waith, ac at bwrpas ei fodolaeth. Yr wyf fi yn meddwl fod pwrpas gan Dduw i fodolaeth pob dyn, ond fod bodolaeth rhai yn fwy uniongyrchol nâ'u gilydd. Felly Paul: yr oedd pwrpas arbenig gan Dduw i fodolaeth Paul. Yr oedd efe i fod yn llestr glân i gario yr Efengyl i'r cenedloedd. Yr oedd Duw wedi gofalu rhoddi addysg dda a gallu mawr iddo ddysgu llawer o ieithoedd, a'i gynnysgaethu â dewrder: nid oedd dim troi yn ol i Paul, ac ni roddai fawr gwerth ar ei fywyd naturiol: gwneuthur ei genadwri yn sicr oedd Paul. Dylem ninau fod yn gyffelyb iddo, yn cyflawnu amcanion ein bodolaeth yn onest ac yn ddewr, a bod yn wir filwyr dros achos yr Efengyl. Mae lle i ofni nad yw banner y dynion sydd dan yr enw Cristion etto yn gwybod pa beth yw amcanion eu bodolaeth yn y byd hwn; ond cawn Paul yn dweyd, 'Mi a orphenais yr yrfa a osodwyd o'm blaen.' Pa nifer o honom ni fedr ddweyd hynyna? Mae gan bob dyn ei yrfa i'w rhedeg, a choron yn ei aros yn y pen draw os gorphena ei yrfa fel Paul; ac ar ddiwedd ei yrfa ddaearol cawn ef yn myned yn ostyngedig dan driniaeth greulon Nero."

J. J. T.

MARWOLAETH Y PARCH. D. A. THOMAS.

Tachwedd 21, ar ol cystudd byr, yn Heolbont, Cwmbach, Aberdar, yn 24 oed, bu farw y Parch. David Aeron Thomas, mab i David a Mary Thomas, Aldergate, Ystrad, Sir Aberteifi. Ni fu erioed yn meddu corff cryf, ac ofnid yn fawr pan aeth i Goleg Caerfyrddin i fyfyrio er cymhwyso ei hunan i waith y weinidogaeth, na fyddai yn ddigon cryf i fyfyrio mor galed ag oedd gwaith y coleg yn ofyn; ond cafodd iechyd a nerth i fyned drwy gwrs y coleg yn llwyddiannus. Ar ol bod beth amser gartref, a pheth yn Lloegr, sefydlwyd ef yn weinidog yn lle y Parch. E. W. Lloyd yn y Cwmbach, Aberdar. Er na fu yno ond amser byr yn gweinidogaethu, gwnaeth iddo ei hun gyfeillion, ac ennillodd serch y gynnulleidfa, a dangosodd fod ynddo gymhwysder at waith y weinidogaeth—y gwaith yr oedd efe wedi cyssegru ei fywyd iddo. Yr oedd pob arwyddion, pe cawsai fyw, y buasai yn ddefnyddiol iawn a

pharchus yn y weinidogaeth. Gadawodd lawer o gyfeillion mewn hiraeth ar ei ol, heblaw tad a mam, brawd a chwaer, a llawer o berthynasau sydd heddyw mewn galar o herwydd colli un oedd mor anwyl iddynt hwy ac i bawb a'i hadwaenent. Y dydd Mercher canlynol, dangosodd eglwys y Cwmbach ei serch tuag at ei diweddar weinidog hoffus, trwy ymgynnull yn gryno i gario ei gorff i orsaf y gerbydres yn Aberdar er ei gludo i Sir Aberteifi. Cyn cychwyn o'r ty darllenwyd gan y Parch. J. Hathren Davies, a gweddiwyd gan y Parch. R. J. Jones, M.A. Yr oedd y gruddiau gwlybion a welid yn yr angladd yn ddangoseg amlwg o'r anwyldeb â'r hwn y perchid ef gan ei gydnabod yn y Cwmbach. Daeth nifer mawr i orsaf Llanbedr i gwrdd â'r gerbydres oedd yn dwyn ei weddillion marwol; a dygwyd ef mewn elorgerbyd i dy ei rieni, lle y bu yn aros am ddiwrnod a noswaith. Ddydd ei angladd daeth tyrfa luosog i ddangos eu parch iddo a'u cydymdeimlad â'r teulu yn eu tristwch. Cyn cychwyn o'r ty i'r gladdfa yn Rhydygwin, darllenodd a gweddiodd y Parch. W. Rees, ac yn y capel darllenodd y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, a siaradwyd yn fyr a phwrpasol gan weinidogion oeddynt yn bresenol—y Parch. B. Carolan Davies, Ty'nygwndwn; y Parch. Cadfwlch Davies, Cilcenin; y Parch. B. Phillips, Temple Bar; a'r Parch. T. Thomas, Pantydefaid; ac ar lan y bedd gweddiodd y Parch. John Davies, Alltyplaca. Yr oedd y Parch. D. Evans, Cribin, hefyd yn bresenol yn yr angladd. Traddodwyd y bregeth angladdol yr ail Sul ar ol y gladdedigaeth yn nghapel Rhydygwin gan y gweinidog, pan ddaeth llawer o gyfeillion yn nghyd heblaw y rhai sydd yn arfer addoli yno. Duw a roddo nerth i'r teulu beidio â galaru fel rhai heb obaith, ac a lanwo y lle gwag sydd heddyw yn yr eglwys y llafuriai ynddi.

TEULU Y MEDDWYN AR NOS SADWRN, A'R MODD I GAEL DIWYGIAD.

Os ydych am gael cipolwg ar drueni a thlodi a newyn, de'wch gyda mi i gartref y meddwyn ar nos Sadwrn, nid am fod nos Sadwrn yn sefyll ar ei phen ei hun mewn trueni, ond am mai ar y noswaith hon y mae efe gartref yn sefyll mewn gwrthgyferbyniad eglur i'r un noswaith yn nghartref y gweithiwr tlawd ond sobr. Beth yw yr olygfa a welwn? Ni a gawn fod y cwpbwrdd yn wag erbyn y Sabboth, yr aelwyd heb dân, y plant heb ddillad yn crynu gan oerfel a newyn, yr ystafell heb gelfi, a'r fam yn wylo yn hidl wrth weled ei phlant diniwed yn oer, yn garpiog, ac yn newynog. Ond ust! dyna swn troed drosgl y tad meddw wrth y drws. Nid oes un o'r plant yn llawenychu ar ei ddyfodiad: nid oes un o honynt yn rhedeg i'w groesawu â chusan. Dacw'r fam a'r plant yn gwelwi, yn dychrynu, ac yn nesu at eu gilydd. Ni feiddiant yngan un gair; os gwnant, gwyddant yn rhy dda beth fydd y canlyniad—y dwrn a'r llwon ofnadwy, nes dychrynu pob un yn

y ty. Mae'r dyn oedd unwaith yn briod anwyl ac yn dad tyner wedi ei amddifadu o bob teimlad da: mae'r ddiod wedi tynu allan o'i fynwes bob cariad at ei wraig a'i blant; nid yw mwyach yn ofni Duw nac yn parchu dyn. Dyma gartref! O enw cyssegredig oedd unwaith yn adlewyrchiad o hapusrwydd a chariad y teulu nefol, wedi ei wrthdroi i fod yn adlewyrchiad tanbaid o'r truenusrwydd eithaf.

Dylem gael yn mhob plwyf ystafell lle y gallai y gwŷr gyfarfod â'u gilydd yn awr ac yn y man yn ystod eu horiau hamddenol. Gydag ychydig ymdrech, gellid gwneuthur ystafell o'r fath yn allu mawr er daioni mewn plwyf. Gellir cyssylltu â'r ystafell ddadlenfa, llyfrgell, a chyfres o gyfarfodydd cystadleuol a chanu. Ymddengys fod ystafell-oedd o'r fath eisoes mewn rhai plwyfi, ac yn dwyn ffrwythau rhagorol yn bresenol. Yn y mwyafrif o blwyfi nid oes un man y gall y gweith wyr gyfarfod â'u gilydd ynddo ond yn y dafarn. O na chynhyrfid calonau mwy o'n pregethwyr i gymmeryd rhan flaenllaw yn hyrwyddiad dirwest! Truenus i'r eithaf ydym gweled llawer o'n pregethwyr yn sefyll yn ddifater, tra mae ereill yn ymdrechu achub eu praidd rhag cael eu dinystrio, gorff ac enaid, wrth ddylyn diod gadarn. Brysied y dydd pan ddelo Prydain feddw yn Brydain sobr, a llawnder a sobrwydd a mawl yn nodweddu pob cartref yn ein gwlad. De'wch i ni gael dechreu codi dirwest yn mhob plwyf gyda dechreu blwyddyn newydd, a bydd y gwyr â'r boliau mawr yn dechreu sisial fod y dynion ffol wedi troi yn ddynion call.

UNDODWR.

MARWOLAETH MR. TITUS LLOYD.

AR ol cystudd hir a phoenus, wedi ei oddef gydag amynedd canmoladwy Cristionogol, bu farw Mr. Titus Lloyd o Borthcawl, Tachwedd 16, yn 68 oed. Yr oedd yn fab hynaf y diweddar Barch. Titus Lloyd, gweinidog y Wig a'r Notais (1847—1879) ac wyr i'r Parch. Evan Lloyd y gweinidog o 1803 i 1847. Brodyr iddo yw y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, a'r Parch. J. B. Lloyd, Dudley. Bu Mr. Lloyd yn golofn yr achos yn y Notais am flynyddoedd lawer, a gwasanaethodd yno hyd eithaf ei allu mewn llawer cylch, yn yr ysgol gân, yr Ysgol Sul a'r cwrdd gweddi. Ar un adeg, cyflawnodd ddyledswyddau y pwlpud Sul ar ol Sul am ryw dair blynedd, a gwnaeth hyny yn selog ac effeithiol, ac i foddlonrwydd cyffredinol. Gan nad oedd wedi ei ddwyn i fyny i'r gwaith, fe'i cafodd yn fynych yn dreth drom ar ei lafur a'i amser, oblegyd yr oedd ei alwedigaeth ddyddiol o hyd yn galw; ond yr hyn a allai, efe a'i gwnaeth, ac yn galonog; fel ffrwyth ei lafurus gariad. Yr oedd, fodd bynag, yn llawenydd ganddo ollwng ei fantell i syrthio ar ysgwyddau ei nai, Mr. W. J. Philips, yr hwn sydd gydag ymroddiad teilwng o'i dadau yn *rhoddi* ei help goreu i gadw'r llusern yn llosgi a goleuo yn mhabell y cyfarfod yn Notais yn

awr. Yr oedd Mr. Lloyd yn siaradwr nerthol ac effeithiol iawn, ac yn wleidyddol yr oedd un amser yn allu braidd anwrthwynebol yn ei gymmydogaeth, lle yr oedd yn hir wedi helpu i wrthsefyll dylanwadau gorlethol yr eglwys wladol.

Cafwyd tystiolaeth amlwg a digonol o'r modd ei cerid gan ei gymmydogion yn y cynhebrwng lluosog a gafodd, y lluosocaf a welwyd yn yr ardal am rai blynyddau. Claddwyd ar y Sadwrn (y 18eg) yn mynwent eglwys y plwyf, ei hen gyfaill Mr. Jones o Aberdar yn gwasanaethu yn y tŷ, ac yn cael ei gynnorthwyo ar lan y bedd gan y Parch. J. H. Miles (Bedyddiwr).

Canwyd wrth y drws, cyn cychwyn, emyn oedd yn hoff iawn gan yr ymadawedig, yn dechreu, "Sweet hour of prayer," &c.. cyfieithad o'r hwn sydd fel y canlyn :—

YR AWR WEDDI.

Awr weddi felus! Ti o hyd
A'm gelwi oddi wrth ofalon byd,
Ti'm gelwi at yr orsedd fwyn
I draethu f'angen, d'weyd fy nghwyn :
Ar drist dymhorau bywyd mad,
Cadd f'enaid fynych esmwythad,
A mynych ddianc gwaeau'r llawr,
Yn dy ddychweliad, felus awr!

Awr weddi felus! Hyfryd awr,
O dwg fy nghais at Dduw yn awr—
At Dduw a roes ei air i'm rhan
Y gwnelai wrando weddi'r gwan,
Ac os yw'n galw arna i'n ddwys,
Roi ynddo'm hyder, arno 'mhwys;
Gan roi pob gofal iddo 'nawr,
Ddysgwyliaf di, hoff felus awr.

Fanny Crosby, 1823—.

Gwel "Essex Hall Hymn and Tune Book," No. 8. "Essex Hall Hymnal," No. 36.

TRICIAU ANNHEILWNG.

Aml ac aml yr wyf wedi clywed tod tafarnwyr a thafarn-wragedd yn barod iawn i wneyd tro brwnt â'u cwsmeriaid ar arch rhyw gnaf o ddyn. Os bydd rhyw ddyn direidus neu faleisus am feddwi ei frawd, nid oes rhaid iddo wneyd dim ond myned i fewn i dafarn lle bydd yn adnabyddus, a wincio ar y weinyddes neu'r gweinyddwr am roi glasied o frandi, rum, neu whisci yn nglasied diod ei gydymaith, er cyrhaedd yr amcan drwg a maleisus o'i ddrygu a'i feddwi, ac y mae'r peth wedi ei wneuthur. Bydd y dyn hwn, y bradwr hwn, felly, yn llwyddo yn ei fradwriaeth drwy gydweithrediad y tafarnwr neu y dafarn-wraig, y forwyn neu'r gwas. A gellir gofyn mewn difrif, A

ydyw y fath ddynion yn deilwng o gael eu gosod mewn meddiant o'r hylif dinystriol, alcoholaidd hwn, fel y gall pob cnaf, pob dyn direidus, a phob dyn maleisus eu defnyddio i feddwi eu cyd-ddynion? Ceir digon o'r cyfryw hanesion ar lafar gwlad, fod hwn a hwn wedi meddwi y dyn a'r dyn—fod y tafarnwr neu'r dafarn-wraig wedi rhoddi glasied o frandi yn ei ddiod. Onid ydyw hyn yn fradwriaeth enbyd—proffesu cyfeillgarwch at un, ac etto, y tu cefn iddo, yn defnyddio moddion i'w wneyd yn feddw.

Dim ond y noson arall yr adroddwyd wrthyf pa fodd yr oedd chwaer un dyn wedi rhoddi gofal ei brawd i'w gwr wrth fyned i'r farchnad, ac fod y brawd hwnw, er profi ei fod ef yn sobrach na'i gwr, wedi gwneuthur meddwyn teg o hono, er cael spri am ei ben, a gorchfygu ei chwaer! Dywed y tafarnwyr wrthym eu bod *hwy* mor groes i feddwdod a neb, y gofidiant *hwy*, ac y galarant *hwy* am fod dynion yn methu yfed heb feddwi; etto, dyma hwy yn fwriadol yn cydfradychu eu cyd-ddynion, er gwneuthur meddwon o honynt. Na, na, ni ofidiant hwy lawer am feddwdod, os na fyddant yn cael eu poeni gan y cyfryw, oblegyd, mewn gwirionedd, meddwi ydyw eu gwaith, ac anmhossibl ydyw iddynt gynnal yn mlaen eu masnach heb feddwi eu cyd-ddynion, ac yn yr ystyr uchod, ceir hwy yn wirfoddol, ac o fwriad drwg, yn meddwi eu cyd-ddynion.

Mae yn hen bryd gosod y ddiod alcoholaidd hon dan ofal dynion cyfrifol, a dim o honi i gael ei gwerthu, oddieithr fel moddion mewn achos o glefyd. Dylid hefyd ddal y cyfryw werthwyr yn gyfrifol, os byddant yn esgeulus yn nghyflawniad eu dyledswydd. Yn awr, cospir dynion am feddwi; ond ni chospir y tafarnwyr am wneyd dynion yn feddw—cânt hwy feddwi faint a fynont, heb fod fawr o edrych ar eu hol. A chwareu teg i'r heddgeidwaid, os deuant hwy â thafarnwr i'r llys am ganiatau meddwdod, neu werthu diodydd i ddyn meddw, 10 i 1 na wna yr ynadon ollwng y cyhuddedig ymaith yn ddigosp, oblegyd fod gobaith yr elw yn diflanu. Mae llawer mwy o ofal gan ein hynadon am ddyogelu trwyddedau y tafarnwyr nag sydd ganddynt am dreio cadw y wlad yn sobr—ni wna sobri y wlad wasgu llawer ar eu meddyliau. O bossibl y gellir egluro llawer o'r dirgelwch drwy ddweyd fod colli trwyddedau yn lleihau gwerth y tir, ac felly, fod gobaith elw y mawrion yn lleihau.

Diamheu hefyd nad oes rhyw fath o gyfathrach yn bodoli rhwng yr heddgeidwad a'r tafarnwr, o herwydd ca y blaenaf ei ddiod yn rhad ac am ddim, ac fel cydnabyddiaeth am hyny, bydd yn drugarog iawn yn ei oruchwyliaeth yn gwylied y tafarnwr; a chan fod pethau fel y maent, nis gellir dysgwyl gwell edrychiad ar ol y tai yfed dinystriol hyn, a gwnant lygru pawb a gymmeront o'u trwyth gwenwynllyd.

Pa bryd y ceir gan broffeswyr crefydd o bob enwad yn Nghymru dori pob cyssylltiad â'r dafarn, a sefyll allan yn wrol dros sobrwydd? Mewn llawer lle, ymdrechir rhedeg yr eglwys a'r dafarn ochr yn ochr—bwyta o ford yr Arglwydd, a bwyta o ford y cythreuliaid. Hyderwn a gweddiwn nad êl yr oes hon heibio hyd nes y dymchwelir y dafarn â dymchweliad bythol.

D. F. Davis.

NODYNAU GWASGAROG.

DUW WEDI MARW!

Ioan iii. 16, "Yn hyn yr adnabuom gariad *Duw*, oblegyd dodi o hono ef ei einioes drosom ni." Mae rhai yn credu hyd y dydd heddyw fod Duw wedi marw o leiaf unwaith. Dywedant fod ganddynt Ysgrythyr yn sail i'w cred. Tybiant yn ddyledswydd arnynt gredu pobpeth a welant yn yr Ysgrythyr, a dywedant y byddai mor rhwydd ganddynt gredu fod Jonah wedi llyncu'r morfil a chredu fod y morfil wedi llyncu Jonah, pe byddai hyny ar ddu a gwyn yn y Beibl Cymraeg. Ofer ymresymu â dynion felly, ac ofer gofyn iddynt pwy gynnaliai'r bydysawd ar adeg marw Duw. Wrth gwrs fe farw'r Iesu, fel mae pawb yn cytuno. Y cyfieithwyr osododd y gair *Duw* i fewn. Fel hyn y mae cyfieithad W. Salesbury (1561): "Wrth hyn y gwybuom gariat, can yddo ef ddodi ei einioes drosom ni." Ac fel hyn y mae'r cyfieithad diwygiedig Seisnig: "Hereby know we love, because he laid down his life for us." Nid oedd Paul yn credu y gallasai Duw farw pan ysgrifenai at Timotheus (1 i. 17)—"Ac i'r Brenin tragwyddol, *anfarwol*, anweledig, i'r Duw, unig ddoeth, y byddo anrhydedd," &c.

CERYDD PLENTYN.

Yr oedd un dyn, yr hwn oedd yn medru pregethu amynedd yn well na'i ymarfer, bob amser yn myned i natur ddrwg pan ddigwyddai ei orwyrion ffeindio eu ffordd i'w fyfyrgell. Un diwrnod yr oedd un o'r rhai bychain hyn yn sefyll wrth ochr ei fam, a hithau yn siarad wrtho yn nghylch y nefoedd. (Ceir rhai mamau etto yn cofio am grefydd i'w plant.) "Ma," meddai'r bychan, "ydw I ddim yn 'mofyn myn'd i'r nefoedd." "Ddim yn 'mofyn myn'd i'r nefoedd, fy mab!" "Nac wyf yn sicr i chwi, mami." "Paham hyny, fy mab?" "Bydd nhadcu yno, oni fydd?" "Bydd, gobeithio." "Wel, cynted y gwel ni, fe ddaw ar ein hol, yn grac gwyllt, ac yn gwaeddi, 'Whiw, whiw, beth mae'r hen blant yn 'mofyn yma?' Nid wyf yn 'mofyn myn'd i'r nefoedd os bydd 'nhadcu yno."

CELWYDD.

Gadewch i ni beidio dywedyd celwydd byth; i beidio meddwl un celwydd yn ddiniwed, un arall yn ysgafn, un arall yn anfwriadol. Bwriwn hwynt oll o'r neilldu. Gallant fod oll yn ysgafn ac yn anfwriadol, ond yr huddygl du o fwg y pwll ydynt wedi'r cwbl, a gwell fod ein calonau yn cael eu hysgubo yn lân o honynt, heb ofal mawr pa un

sydd fwyaf neu ddnaf. Mae dywedyd y gwir yn debyg i ysgrifenu yn deg, ac yn dyfod trwy ymarfer yn unig; mae yn llai yn bwnc o ewyllys nag o ymarfer, ac mae'n amheus genyf a all un achlysur fod yn ddibwys sydd yn caniatau ffurfio y fath ymofyniad.

YR ADEILAD MWYAF YN Y BYD.

Mewn cyfarfod yn ddiweddar yn Llundain, rhoddodd Dr. Duff y darluniad canlynol o pagoda yn yr India:—Yn Seringham y ceir mae'n debygol y deml baganaidd fwyaf yn yr holl fyd. Mae'n scwar, a phob ochr yn filldir, felly mae yn bedair milldir o amgylchedd. Yr ydych yn siarad am eich Crystal Palace! Megys y gall dyn ddodi ceiniog yn ei boced, gallech ddodi eich Crystal Palace yn mhoced y Pagoda mawr hwn. Mae'r muriau yn 25n troedfedd o uchder, yn 4 neu 5 o led, a thua chanol pob mur y mae tŵr uchel yn ymgodi. Wedi myned i mewn i'r scwar cyntaf, yr ydych yn dyfod at un arall â mur llawn mor uchel, a phedwar tŵr yn ychwaneg. O fewn y scwar hwn y mae etto un arall drachefn, ac yr ydych yn cael saith scwar, un o fewn y llall, ac ydddynt filoedd o Frahminiaid. Mae neuadd fawr y pererinion yn sefyll ar fil o bileri, pob un o'r rhai ydynt wedi eu naddu o un garreg.

CARDOTA.

Adrodda Plutarchus am gardotyn yn gofyn elusen gan Spartan, yr hwn a atebodd iddo, "Pe rhoddwn i ti rywbeth, gwnelai hyny di yn fwy o gardotyn nag erioed, canys hwnw a'th wnaeth yn gardotyn yr hwn a roddodd i ti gyntaf." Gwrthododd boneddiges un tro roddi i gardotyn, a chlywodd ef yn dywedyd mewn llais dwfn, "Wel, wel, mae'n rhaid i mi ddychwelyd at fy mhenderfyniad cyntaf." Credodd hithau ei fod yn golygu lladrad neu hunan-laddiad; trodd yn ei hol a rhoddodd arian iddo, gan ofyn iddo beth oedd ar fedr wneuthur. "O, madam," meddai, "yr ydych yn dda iawn, yr oeddwn bron dyfod i'r penderfyniad i fyned i weithio."

ER COF AM Y DIWEDDAR AERONIAN.

Aeth Aeronian, druan, drwy
Y geledig gul adwy!

Rhoddwyd y bardd da ei ben—yn y llwch;
Llaith yw grudd yr Awen;
Rhyw dew niwl ordöa nen
Cariadus feib Ceridwen.

Oedd wr o gyrhaedd rhagorol;—bu'n help
Yn hir i'r Bwrdd Ysgol;
Un bywiol oedd; b'le o'i ol
Mae da was mwy dewisol?

Yr Henadur hynodol—a gafwyd
Yn gyfaill mynwesol;
Egr yw'r ing a geir ar ol
Y llon arwr llenorol.

Bu'n wan iawn dan bwn o nych;—am ei ddelw
Meddyliaf yn fynych;
Mwy ni chawn, a mi'n chwennych,
Gwmni llon y gwron gwych.

Arglwydd mad! o'th rad a'th rin,—dyro nerth,
Dyro nawdd mewn dryghin;
Dyro fwyniant i'w blant blin
Tan guriad tonau gerwin.

DEWI HEFIN.

THOROUGH.

Gair Seisnig ydyw "Thorough," ond nid wyf yn gwybod am *un gair* i drosglwyddo'r meddwl yn y Gymraeg. Mae'n gyfystyr a hyn: "Pa beth bynag yr ymaflo dy law ynddo gwna ef a'th holl egni." Hyny yw, gwna ef *yn drwyadl*. Dylid edrych fod pob dyledswydd yn cael ei pherffaith a'i chyflawn orphen, gan na wyddom y canlyniad o beidio. Adroddir am gludydd llythyron yn un o'n trefydd mawrion, iddo basio yn ddisylw lythyr a gafodd ar waelod ei gwd wedi gorphen ei gylchdaith. Edrychai y llythyr yn ddigon di nod ac yn debyg i gannoedd ereill. Felly, fe'i dododd o'r neilldu hyd dranoeth. Beth fu'r cynlyniad? O ddiffyg cael y llythyr hwnw fe fethodd cwmni mawr a chyfarfod a'i ofynion, cauwyd y gwaith, taflwyd cannoedd o ddwylaw allan. Diswyddwyd y cludydd, dyoddefodd y teulu angen; ond ychydig oedd ei golled ef mewn cymhariaeth i'r trueni a achosodd trwy ei fethiant amlwg mewn dyledswydd.

C.F.

YR UNIG DAD.

"Mae fy nhad i yn gyfoethog iawn," ebe iarll bychan un tro wrth ei *nurse*. "Ete bia'r holl dir yma, a'r ty yma, a'r stabal, a'r llyn." "Mae fy Nhad inau yn gyfoethog hefyd," ebe'r groten, fel yr edrychai i fyny at yr wybren, ac ar y caeau a'r coedydd." Y meusydd gwyrddion yma, ei eiddo Ef ydynt oll, a'r wybren las, a'r haul trylachar, a'r anifeiliaid

ar fil o fynyddoedd'—ei eiddo Ef ydynt oll." "A phwy ydyw eich tad chwi?" ebe'r iarll bach. "Duw ydyw y Tad Hollalluog, Crewr nefoedd a daear," ydoedd yr ateb pwyllog a chariadus.

C.F.

HEN LYFR EMYNAU (HOLEB).

"Y mae genyf lyfr Hymnau yn cynnwys agos i 200 o dudalenau mewn llaw-ysgrifen ddestlus, wedi ei ddyddio Awst 12, 1817, gan David Jones, Blaenhaul, Llanddewi Aberarth, Cardiganshire."—*Myrddin Fardd.*

[Mewn llythyr cyfrinachol.]

'Oes rhywun all ddywedyd rhywbeth am y llyfr neu am David Jones?

T. C. U.

Manion ac Hanesion.

DY WYLLYS WNEIR.

Fy Nuw, fy Nhad, os pell o dre'
Y crwydaf mewn anialog le,
O'm calon doed yr ufudd gre'—
Dy wyllys wneir.

Os gwyll fy ffordd a thrist fy rhan,
Dirwgnach b'wyf a thawel, gan
Anadlu gweddi'r Iesu cân—
Dy wyllys wneir.

Er wylo'n drwm mewn galar du
Ar ol cyfeillion oeddynt gu,
Addfwynol boed f'erfyniad hy'—
Dy wyllys wneir.

Os erchi im' roi fyny'n glau
Yr einioes hoff,—nid yw hi'n mau,
Ni roddaf it' ond 'rhyn sy'n tau,—
Dy wyllys wneir.

Adfeilio, os trwy glefyd, caf,
Drwy lonawl ffydd yr ufuddhaf,
O dysg dy was i ddweyd, fy Naf—
Dy wyllys wneir.

O ddydd i ddydd, gwna'm heiddo I
Yn unol â dy 'wyllys Di, [mi—
I ddweyd, Fy Nuw, gwna'n hawdd i
Dy wyllys wneir.

Rhoi'r weddi'n drist, roes lawer pryd•
Pan mwy nid allai'n hyn o fyd,
Mi ganaf draw'n y nefoedd glyd—
Dy wyllys wneir.

Drenewydd-yn-Notais, W.B.
Tach. 12, 1892.

ABERDAR. — Cawd gwyl de flynyddol lwyddiannus iawn yn yr H.D.C., Llun y 19eg o Ragfyr, a chyngherdd yn yr hwyr dan lywyddiaeth R. H. Rhys, Y.H., C.C. Yr oedd holl drefniant cyfarfod yr hwyr dan arweiniad Mr. D. Evans, a llwyddodd i gael help parod llawer o ddyeithriaid. Talwyd diolch cynes ar y terfyn i'r cadeirydd, ac i bawb a roisant eu gwasanaeth yn y prydnawn ac yn yr hwyr. Cafwyd help Mrs. Rees (Llinos Rhondda) fel arfer. Cyfeiliwyd i Mrs. Rees gan Miss M. A. Jones, ac i'r lleill gan Miss Mary Griffiths (Poplars).

CEFNCOED.—Dydd Llun, Rhagfyr 26, cynnaliodd aelodau yr Hen Dy Cwrdd, yn nghyd ag aelodau yr Ysgol Sul, fath o *social tea-meeting*—anrheg boneddigesau y gynnulleidfa—yr hwn a fwynhawyd yn ardderchog. Dylynwyd y tê gan gwrdd adrodd a chanu, yn benaf gan y plant, y

rhai a ganasant amryw ddarnau yn swynol iawn, dan arweiniad Mr. D. E. Jones. Yn ystod y cyfarfod, anrhegwyd Miss M. M. Harries, aelod o'r eglwys, a'r hon sydd ar fedr ymadael er myned i Stockwell College, Llundain, â nifer o lyfrau gwerthfawr, yn nghyd ag *inkstand* hardd. Llywyddwyd gan Mr. William Hughes. —Da genym oedd gweled enw Miss M. M. Harris, merch Mr. W. Harris, *Assistant Overseer*, mor uchel yn mysg ymgeiswyr am y *Queen's Scholarship*. Nid oedd nemawr un yn uwch na hi o Gymru. Bwriada astudio yn Stockwell College, Llundain. Eiddunwn ei llwyddiant.

Dr. Griffiths.—Mae y pregethwr a'r ysgolor rhagorol hwn wedi ei gyflogi gan y *British & Foreign Unitarian Association* i fyned ar daith trwy Ogledd Cymru i ddarlithio ar bynciau ffydd Undodiaeth. Credwn y ffeindia Dr. Griffiths fod y ffydd broffesa yn athrawiaeth hynod i'r rhan amlaf o'r Gogleddwyr. Gobeithiwn y gwrandewir ar ei genadwri.

Mountain Ash.—Yr oedd yn dda genym ddarllen yn un o bapyrau Pontypridd fod rhai cyfeillion Undodaidd yn y lle hwn yn dechreu ymysgwyd a meddwl am achos crefydd. Da chwi, gyfeillion, ceisiwch gael gafael yn eich gilydd, er cymmeryd dan ystyriaeth beth ellir wneyd. Mae'r cynauaf yn fawr ac yn addfed, ond pa le mae'r gweithwyr? Yr ydym wedi clywed hefyd fod yna rai wedi colli eu hen angorfa, ac yn pryderus chwilio am un newydd.

Llandyssul.—Y mae gan yr Undodiaid ran flaenllaw yn y *Llandyssul Social Union*. Y mae Mrs. Jones, Gellifaharen, Mrs. James, Brynhyfryd; y Parch. W. James, B.A., a'r Parch. W. J. Davies yn aelodau o'r pwyllgor gweithredol. Y mae Mr. Davies wedi traddodi darlith ar "Athronyddiaeth Cariad," a Mr. James ar "Eiliadau hamddenol," a bydd y Parch. T. Thomas yn darlithio ar "Druenusrwydd Bywyd y Dyn Gweddw." Cyfarfydda yr Undeb bob nos Fercher yn Neuadd Gyhoeddus y Porth. Y mae yr Undeb yn hollol ansectol, a theimla y gwyddfodolion lesiant neillduol oddiwrth y cyfarfodydd. Dymunwn ddweyd fod Mr. a Mrs. Davies y Porth yn gwneyd pob peth a allont er hyrwyddo y mudiad.

Priodas.—Dydd Sadwrn, Tachwedd 19, 1892, yn Eglwys St. Ioan, Clydach, priodwyd Mr. John T. Jones, Trebanos, a Miss Ann Davies, Penybanc, Craig Trebanos.

Dymunir clod a mwyniant—a hir rym
Yn yr amod wnaethant;
A chall heddwch a llwyddiant,
Heb lai na llon'd ty o blant.—*Cyfaill.*

Marwgofion.

Tachwedd 1af, yn 21 oed, bu farw Willie, anwyl fab John a Mary Griffiths, East Road, Tylorstown, Pontypridd. Bu yr ymadawedig yn dihoeni am amser maith, ond dyoddefodd ei gystudd yn dawel ac amyneddgar hyd y diwedd. Claddwyd ef y Sadwrn canlynol yn Cemetery y Cefn, pryd y daeth tyrfa luosog o gyfeillion a pherthynasau i dalu y gymwynas olaf i'w weddillion marwol. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. Nestor Williams, Twynyrodyn, Merthyr. Bu yr ymadawedig yn ystod rhai o flynyddoedd diweddaf ei oes yn ysgrifenu yn swyddfa Messrs. Jones, Mckintosh & Dixon, Cyfreithwyr, Temple Chambers, Caerdydd, ac ennillodd iddo ei hun barch cyffredinol yn mhlith ei feistri a'i gydswyddwyr. Cyn ei fyned i Gaerdydd, bu yn aelod ffyddlon yn eglwys Twynyrodyn, ac yn weithiwr diwyd a llafurus yn yr Ysgol Sabbothol yn y lle. Danfonwyd llythyr o gydymdeimlad â'i rieni ar ei ol gan aelodau yr Ysgol hon, hefyd gan ei gydweision yn y swyddfa y bu ynddi yn Nghaerdydd, ac er mwyn dangos pa mor ddwfn oedd ei feistri wedi ymserchu ynddo o herwydd ei sirioldeb, ei ddiwydrwydd a'i onestrwydd yn cyflawnu ei waith fel *clerk* yn eu swyddfa, dyfynwn yr isod o'r llythyr cydymdeimlad a ddanfonasant i'w rieni wedi clywed am ei farwolaeth:—

"Anwyl Mr. a Mrs. Griffiths,—Bu yn wir flin gan Mr. Dixon a minau dderbyn y *telegram* y boreu hwn yn cludo y newydd galarus o'r golled ddwys sydd wedi syrthio i'ch rhan. Yr oeddem ni ar bob amser wedi arfer edrych ar eich mab Willie fel dyn ieuanc da, ac yn gyfryw y gellid ymddiried ynddo, ac yr ydym ein dau yn deimladwy iawn o'r golled fawr ag ydym wedi gael trwy ei absenoldeb diweddar o'n

swyddfa. . . . Byddwch mor garedig a derbyn yr ychydig linellau hyn fel sicrwydd o'n cydymdeimlad dwfn â chwi yn eich amddifadrwydd. Ni fu erioed yn ein swyddfa ddyn ieuanc mwy dysglaer ac hynaws, nac un mwy gwir lafurus nag ydoedd eich mab. Gwnelai ei waith bob amser yn gyflym a thrwyadl, ac ymddangosai yn cymmeryd pleser mawr i gyflawnu ei ddyledswydd."

Prudd llawer calon, gyfaill mwyn,
Na chawsai'n hwy dy gadw ;
Mae rhywbeth wrthym fel pe'n dweyd—
Rhy werthfawr o'et i farw ;
Ond dyna, nid nyni, ond Duw
A wyr pa beth sydd oreu,
Dim ond ymddiried yw'n gwaith ni,
Daw'r cyfan etto'n oleu.

Tach. 15, bu farw Catherine Thomas, Talgrwnmawr, ger Llanwnen, ar ol ychydig ddyddiau o gystudd. Gadawodd i alaru ar ei hol briod a phedwar o blant. Claddwyd hi yn mynwent Eglwys Llanwenog, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Morris, Llanwnen.

Rhagfyr 3, Gwladys, merch Mr. a Mrs. Watkins, (Polly Morgan), 60, Dean Street, Aberdar, yn 4 oed. Cyfarfu y fechan a'i diwedd trwy chwareu a'r tân, a dyoddefodd boenau echryslawn hyd nes daeth y terfyn. Claddwyd yn y *Cemetery*, R. J. J. yn gwasanaethu.

Rhagfyr 11, ar ol cystudd byr ond caled, yn 67 mlwydd oed, Thomas Jones, Maesgam, Llanwenog. Claddwyd ef y dydd Iau canlynol yn mynwent Capel y Bryn, a chyflawnwyd y gwasanaeth arferol yn nghlywedigaeth tyrfa luosog iawn, gan y gweinidog yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. Mr. Phillips, B. Gadawodd yr ymadawedig i alaru ar ei ol weddw a phump o blant, heblaw brodyr a chwiorydd a chylch helaeth o berthynasau pellach, a chyfeillion lawer. Yr oedd yn aelod ffyddlon o hen eglwys Llwynrhydowen, cyn ffurfio eglwys Capel y Bryn. Pan ffurfiwyd yr eglwys hono ymunodd a hi. Dewisiwyd ef ar unwaith ei diacon cyntaf, yr hon swydd a ddaliodd hyd y diwedd. Cymmerai ddyddordeb yn yr achos Cristionogol yn y lle, a gwnaeth yr hyn a allodd drosto. Er ei fod er ys blynyddau yn gloff o glun, ac fod ganddo ffordd arw i ddyfod i'r gwasanaeth, anfynych y byddai ei le ef yn wag. Yr oedd ei holl fywyd hefyd, fel penteulu a chymydog, mewn cydgordiad gwych a'i broffes, fel mae ei deulu, yr eglwys a'r gymydogaeth, wedi cael colled fawr yn ei symudiad. Duw'r Nef yn ei drugaredd a ofalo am ei weddw a'i amddifaid, ac a godo rywun neu rywrai i lanw ei le yn yr eglwys a'r gymydogaeth.

Rhagfyr 16.—Trwy ddamwain yn y lofa (Bwllfa), Mr. Thomas Evans, 44, Mount Pleasant Gardens, Aberdar, yn 41 oed, gan adael gweddw ac wyth o blant i alaru eu colled anadferadwy. Ni fu byw ond llai nag awr wedi ei ddwyn i'r ty. Yn nghanol ein bywyd yr ydym yn angeu. Yr oedd mewn parch mawr gyda'i gydweithwyr yn gystal a'r rhai mewn awdurdod. Darluniai ei feistr ef ini fel dyn tawel a diniwed, hawddgar ac esmwyth. Bernid fod tua mil o bobl yn y cynhebrwng. Claddwyd yn y *Cemetery*, R. J. J. yn gwasanaethu.

Rhagfyr 20.—Yn nhy ei thad, bu farw Margaret gwraig y Parch. James Shaw a merch Mr. William Howells, Dare Villas, Aberdar, yn 28 oed. Mae'r amgylchiad wedi taflu cysgod o dristwch dros yr holl ardal, gan fod y wraig ieuanc a'i rhieni yn adnabyddus iawn. Gwnaed yr amgylchiad yn fwy trist gan y ffaith fod Mr. a Mrs. Shaw ar fin symmud i Torquay, lle'r oedd efe wedi cymmeryd gofal newydd ac ar fedr cychwyn a'i ddyledswyddau Ionawr 1. Yr oedd y dodrefn &c., eisoes wedi eu gyru i ffwrdd, a hwythau wedi myned i Dare Villas i dreulio ychydig ddyddiau cyn gadael Aberdar. Yr oedd dydd Gwener wedi ei bennodi gan yr eglwys i gynnal cyfarfod ffarwel ; ond daeth y dydd hwnw i fod yn ddydd yr angladd, ac yn y boreu yn ol hen ddefod boblogaidd yn rhai parthau o Gymru, bedyddiwyd y ferch fach (chwe' mis oed) ar arch ei mam fel y dywedir, y Parch. J. Fisher Jones yn gweinyddu, gan ei galw yn Constance Helena. Yn y prydnawn cyn cychwyn o'r ty darllenwyd a gweddiwyd gan y Parch. Nestor R Williams. Awd trwy y gwasanaeth arferol yn yr eglwys (blwyfol) ac ar lan y bedd gan y ficer ; ac ar ei ol traddodwyd anerchiad pwrpasol iawn i'r amgylchiad gan y Parch. J. Joseph George a gweddiwyd gan R.J.J. Yr oedd y cynhebrwng yn lluosog, a gwelsom yno y Parchn. J. Hathren Davies, W. E. George, J. Davies, Zoar (A.), Thomas Jones, Penpownd (B.) ; John Mills, Abernant (B.) Y Sul canlynol, gwasanaethwyd yn y capel gan Mr. George, yr hwn a draddodedd bregeth angladdol yn yr hwyr.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.